OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 3117 (Cy.295)

CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) (Diwygio) 2003

Wedi'i wneud - - 2 Rhagfyr 2003

Yn dod i rym yn unol ag Erthygl 1.

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan erthygl 21(1) a (2) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2003(**1**), ac ar ôl ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol —

Enwi, cychwyn a dehongli

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) (Diwygio) 2003 a daw i rym y diwrnod ar ôl iddo gael ei wneud.

Talu ffioedd hyfforddi i Swyddogion Canlyniadau

2.—(1) Mae Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2002(**2**) yn cael ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle rheoliad 3(1)(b) rhodder — "treuliau o'r math a ddisgrifir ym mharagraffau 3(1), 4(1), 5(1), 6(1) a 6A(1) o'r Atodlen, ac".

(3) Yn rheoliad 3(2)(b), yn lle "7(1)" rhodder "5(1) a 6A(1)".

(4) Yn Rhan II o'r Atodlen, ar ôl Paragraff 6 mewnosoder paragraff newydd, sef Paragraff 6A—

"**Taliadau mewn cysylltiad â hyfforddi swyddogion llywyddu:**

6A.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer gwneud taliad i swyddog canlyniadau mewn cysylltiad â chostau a dynnir wrth hyfforddi swyddogion llywyddu i gyflawni dyletswyddau ar ddiwrnod pleidleisio mewn etholiad Cynulliad.

(2) £40.00 yw'r uchafswm y gellir ei adennill fesul swyddog llywyddu sy'n cael hyfforddiant.

(**1**) O.S. 2003 Rhif 284.
(**2**) O.S. 2002 Rhif 3053 (Cy.288).